Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

24 Hydref, 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,



*Hwyl Disgo Calan Gaeaf 2024!*

Wrth i ni nesáu at ddiwedd ein hanner tymor cyntaf, hoffwn nodi ein diolch diffuant am waith rhagorol disgyblion a staff ar ddechrau prysur a chynhyrchiol i'r flwyddyn academaidd. Mae eisoes wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd - digwyddiadau codi arian, ymweliadau addysgol, gweithdai lles yn ogystal â gweithgaredd chwaraeon a chlybiau allgyrsiol. Diolch yn fawr i elusen **Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth** am ddarparu gweithdai addysgol pwysig i'n disgyblion Bl7, gan hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn rhagfarn yn ein cymuned.

**Hwyr i'r ysgol:** Mae ein monitro o gofrestru yn ystod y misoedd cyntaf yn dangos bod lleiafrif sylweddol o fyfyrwyr yn gyson hwyr i'r ysgol yn y bore. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn oedi mewn siopau lleol neu'n gadael cartref yn hwyr yn y lle cyntaf! Gofynnwn am eich cefnogaeth i wella prydlondeb i'r ysgol a byddwn yn rhannu gyda rhieni, fanylion hwyrni cyson yn y tymor newydd.

**Shrec:** Mae tocynnau bellach ar gael ar ParentPay ar gyfer ein Sioe Gerdd, Shrec, 19-21 Tachwedd am 7pm. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol i werthfawrogi talentau theatrig ein disgyblion.




**Gweithdy Torch Nadolig:** Hyfryd eich gwahodd fel rhieni, i weithdy creu torch Nadolig (tocynnau nawr ar gael), nos Iau 28 Tachwedd, trwy *Cyfeillion Glantaf*. Bydd yr holl elw'n cael ei gyfeirio i gefnogi gweithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol yr ysgol.

**Ymweliad Estyn:** Yr ddiweddar, daeth Estyn, arolygiaeth ysgolion atom ar gyfer ymweliad thematig yn edrych ar ymddygiad cadarnhaol. Roeddem wrth ein bodd gyda'r adborth ac roeddem yn falch bod rhai o'n disgyblion a'n staff wedi gallu rhannu eu profiadau ynghylch ymddygiad ac agwedd at ddysgu yng Nglantaf. Mae Estyn wedi gofyn i ni rannu ychydig o'n gwaith yn eu hadroddiad, fydd yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

**Cymorth Lles:** Hoffem eich atgoffa o'r holl gymorth lles sydd ar gael yn yr ysgol i'ch plentyn. Trwy gysylltu ag Arweinwyr Cynnydd a Lles eich plentyn, gallwch holi sut i gael mynediad i unrhyw un o'r asiantaethau cymorth canlynol: nyrs ysgol; cwnselydd ysgol; gwasanaeth mewn gyrraedd i ysgolion; grwpiau hunan-barch Barnardo; cynllun mentoriaid 6ed dosbarth a llawer mwy. Hoffem, dynnu eich sylw at y ganolfan iechyd meddwl galw heibio newydd i bobl ifanc yng Nghaerdydd The Hangout - Platform a'r holl apiau a chymorth a restrir yma: cefnogaeth lles ar-lein

**Protocol Cyfathrebu:** Rydym yn ceisio ymateb i bob cais ac ymholiad yn brydlon, ond rydym yn eich atgoffa ein bod yn gofyn i staff barchu protocol cyfathrebu lle rydym yn ceisio ymateb i gyfathrebu gwaith o fewn oriau swyddfa yn unig.

**Cerddorfa Unedig Ysgolion Cyfrwng Cymraeg: Neuadd Hoddinott, Canolfan Mileniwm Cymru ar 8 Tachwedd:** Rydym yn falch y bydd dros 60 o fyfyrwyr Glantaf yn cymryd rhan yn y gweithdy cerddorfa hwn ddydd Mercher (6/11 ym Mhlasmawr) a dydd Gwener (8/11 WMC) gyda chyngerdd i ddilyn ar 8/11/23 am 6pm. Mae tocynnau ar gael yma: Tocynnau cerddorfa

**Bl8 Chromebooks:** Mae disgyblion Bl8 wedi derbyn eu dyfais Chromelyfr newydd a fydd, gobeithio, yn werthfawr yn eu gwaith. Rydym yn gobeithio parhau â'r prosiect un i un TG hwn ar gyfer Bl7 wrth iddynt drosglwyddo i Bl8, a bydd mwy o wybodaeth i rieni Bl7 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Diogelwch Seiclo / Ymgynghoriad Parcio:** Yn anffodus, mae angen i mi atgoffa disgyblion a rhieni o'r risg sylweddol o feiciau yn cael eu dwyn ar flaen yr ysgol, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cloi ar y ffens. Nid oes unrhyw achos o ddwyn o'r iard fewnol, fodd bynnag, wrth i ddisgyblion barhau i adael beiciau heb eu cloi neu eu cloi i'r ffens,mae beiciau wedi eu cymryd unwaith eto. Byddwch yn ymwybodol o feicwyr wrth yrru ger yr ysgol, yn enwedig gan fod nifer fawr o ddisgyblion yn seiclo i Glantaf. Yn rhy aml, rydym yn gweld gyrrwyr yn ddi-feddwl o'n seiclwyr wrth iddynt aros neu barcio ar linellau melyn yn agos at fynedfa'r ysgol. Dylech wybod bod Cyngor Caerdydd yn lansio ymgynghoriad ar barcio o fewn y ddinas. Gallwch rannu eich barn yma: Ymgynghoriad Parcio

**Her Mathemateg y DU:** Llongyfarchiadau i'n 89 o fyfyrwyr hŷn wnaeth gystadlu yn Her Mathemateg y DU, gyda Ela Roden, Gruff Charles, Tomos Long a Rhydian Walters yn cipio'r Wobr Aur (gyda 9 Arian a 25 Efydd). Cafodd Ela hefyd Ragoriaeth yn Olympiad Mathemateg i Ferched – *gwych iawn!*

**Cyfrif X:** Diolch i chi am y gefnogaeth a gawsom yn dilyn ein penderfyniad i symud ein cyfrif o lwyfan X. Byddwn yn cau cyfrifon X yr ysgol ddiwedd mis Hydref, ond byddwch yn wyliadwrus o gyfrifon ffug a byddwn yn monitro'r defnydd o'n cyfrif Instagram @Ysgol_Glantaf ar gyfer y dyfodol.

**Dyddiadau Pwysig**

| | |
|---|---|
| 5 a 7 Tach | Arholiad Rhifedd TGAU Bl 11 *(gyda chyfnodau adolygu ar 4&6 Tach)* |
| 6 a 8 Tach | Cerddorfa Unedig Cyfrwng Cymraeg yng Nghanolfan y Mileniwm am 6pm |
| 8 Tach | Adroddiadau Interim Bl 11-13 |
| | Taith Gerdded Noddedig Bl 11 i gefnogi *Ysbyty Felindre* |
| 12- 15 Tach | Ymweliad Celf a Gwyddoniaeth a Berlin Bl12 & 13 |
| 19 – 21 Tach | Sioe Gerdd *Shrec* am 7pm, Glantaf – tocynnau ar gael drwy *ParentPay* |
| 20 Tach | Gweithdy Hanes/Gwleidyddiaeth (Bl12/13) gydag aelodau o Gyngres yr UDA |
| 28 Tach | Noson Rhieni Bl13 3.15 – 6pm |
| | Gweithdy torch Nadolig – *Cyfeillion Glantaf* – tocynnau drwy *ParentPay* |
| 5 a 6 Rhagfyr | Imiwneiddio Ffliw: Chwistrell Trwyn (Bl 7-11) |

**Diolch:** Hoffem nodi ein diolch diffuant i Mr Michael Jones, un o'n llywodraethwyr ysgol a fydd yn camu o'r rôl ddiwedd y mis. Bu'n Llywodraethwr yng Nglantaf ers 1988, gan gefnogi'r ysgol mewn cymaint o ffyrdd, yn enwedig wrth gynrychioli hawliau teuluoedd a disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd Mr Jones yn ymgyrchydd aruthrol dros Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy RHAG, yn fwyaf nodedig ym maes ADY, lle mae wedi sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at, ac elwa o fewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg. Diolchwn iddo yn ddiffuant am ei waith diflino a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol, *Diolch o galon Michael.* **Yn olaf,** braf iawn llongyfarch saith aelod o'r Chweched sydd wedi eu galw i sgwad dan18 Rygbi Undeb Cymru ac i ddau ddisgybl Bl10, Elin Thomas (Pêl Droed) a Jahvahni Benskin (Pêl Fasged) sydd wedi'u cynnwys yn sgwadiau dan15 Cymru: llongyfarchiadau cynnes!



*Galwad Gwlad! Llongyfarchiadau i Megan, Lloyd, Alfie, Bailey, Will, Tom a Gabriel. Galwad i ymuno â Sgwad XV dan 18 Cymru*

Yn gywir



Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf